

**TEITL Y SWYDD  
BAND**

**Gweithiwr Cymorth Clinigol Radioleg Arweiniol  
Band 4**

**Crynodeb o'r Swydd**

- Bod yn gyfrifol am reolaeth llinell o ddydd i ddydd pob Gweithiwr Cymorth Clinigol Radioleg (RCSW), gan sicrhau bod y gweithlu wedi'i alinio a'i gynrychioli o fewn gofynion y gwasanaeth, a chymryd cyfrifoldeb am greu ac adolygu'r holl ddogfennau llywodraethu ategol.
- Cydlynu gofynion addysg a hyfforddiant Gweithiwr Cymorth Clinigol Radioleg, cynnal asesiadau i gyfrannu at ddysgu achrededig, a chreu a chyflwyno hyfforddiant a mentoriaeth fewnol.
- Gweithio ochr yn ochr â staff cofrestredig i gynorthwyo a chyflwyno archwiliadau a gweithdrefnau delweddu.

**Yn gyfrifol i'r canlynol:**

**Yn adrodd i'r:**

**Yn atebol i'r:**

**Yn atebol yn broffesiynol i:**

**Cyfrifoldebau a Dyletswyddau**

Bydd rôl y RCSW Arweiniol yn amrywiol ac yn adlewyrchu'r anghenion newidiol o fewn gwasanaethau delweddu i sicrhau gofal sy'n canolbwyntio ar y claf.

Darparu cyfrifoldeb rheolaeth weithredol rheng flaen ar gyfer holl staff RCSW, gan sicrhau dyraniad priodol o staff ar draws dulliau delweddu i hwyluso gwasanaethau delweddu effeithlon, arwain ar gefnogi anghenion addysg a hyfforddiant Gweithiwr Cymorth Clinigol Radioleg, creu ac adolygu polisïau a gweithdrefnau RCSW, a sicrhau bod y gweithwyr yn cael eu cynrychioli a'u hystyried mewn perthynas â gwasanaethau a llwybrau delweddu newydd.

Gweithio'n uniongyrchol ochr yn ochr â staff cofrestredig i gefnogi cyflwyno amrywiol archwiliadau a gweithdrefnau delweddu, mentora, cyfarwyddo a goruchwylio Gweithiwr Cymorth Clinigol Radioleg iau, yn ogystal ag ymgymryd â thasgau dirprwyedig fel gosod canwlâu IV.

**Cynllunio a Dylunio**

Cynllunio a threfnu rotâu RCSW wythnosol/misol ar gyfer y gweithlu parhaol a'r gweithlu banc er mwyn sicrhau bod y gweithlu cymorth yn cael ei ddarparu'n briodol i gyd-fynd â gofynion y gwasanaeth radioleg.

Blaenoriaethu a rheoli eich llwyth gwaith eich hun, gan addasu yn ôl yr angen i sicrhau bod gwasanaethau radioleg yn cael eu cefnogi. Trefnu a chadeirio cyfarfodydd staff RCSW i sicrhau bod cyfathrebu dwy ffordd rhwng rheolwyr a'r gweithlu cymorth yn cael ei gynnal.

### **Gwella a Monitro**

Rheoli salwch staff RCSW yn unol â pholisïau Adnoddau Dynol sefydliadol, cynnal cyfweiliadau dychwelyd i'r gwaith a chyfeirio staff at adnoddau llesiant yn ôl yr angen.

Cynnal asesiadau risg ar gyfer meysydd/ dyletswyddau dirprwyedig sy'n ymwneud â Gweithiwyd Cymorth Clinigol Radioleg, gan sicrhau cydymffurfedd ag archwiliadau lechyd a Diogelwch.

Monitro adrodd am ddiwyddiadau lle bo'n berthnasol i Weithiwyd Cymorth Clinigol Radioleg, gan awgrymu newidiadau i arferion a'u gweithredu lle bo'n berthnasol.

Cyngor ar ddiwygiadau i brotocolau a gweithdrefnau RCSW, gan sicrhau bod dyletswyddau'n cael eu hategu gan ddogfennaeth hyfforddi a llywodraethu priodol.

Sicrhau bod yr holl adnoddau arholi yn cael eu cofnodi'n gywir a chynhwysfawr, gan alluogi llwybrau adrodd i gael eu gweithredu o fewn yr amserlenni gofynnol.

Sicrhau bod pob RCSW yn cael gwybod am unrhyw newidiadau i weithdrefnau adrodd a fydd yn effeithio ar brosesau RCSW, h.y. codau blaenoriaeth, dyraniadau ac ati.

### **Cyfathrebu**

Cydgysylltu ag uwch reolwyr a goruchwylwyr i gyfrannu at ddarparu gwasanaethau delweddu effeithlon, gan gymryd rhan a chynrychioli gweithwyr RCSW mewn cyfarfodydd rheolwyr adrannol.

Cyfathrebu'n rheolaidd â thîm amlddisgyblaethol, gan gynnwys cysylltu â chleifion, wardiau ac adrannau eraill wyneb yn wyneb a thros y ffôn i drefnu archwiliadau a threfnu unrhyw baratodau angenrheidiol fel y manylir gan y staff cofrestredig.

Darparu gwybodaeth ffeithiol am archwiliadau i gleifion, cyn, yn ystod ac ar ôl gweithdrefnau, gan sicrhau bod cleifion a staff yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw oedi annisgwyl.

Defnyddio amrywiaeth o dechnegau cyfathrebu geiriol a di-eiriau i gyfathrebu'n effeithiol a goresgyn unrhyw rwystrau cyfathrebu, h.y. gwahaniaethau diwylliannol, rhwystrau iaith, nam ar y synhwyr, neu anawsterau ffisiolegol.

Ymateb yn briodol i ymholiadau arferol ac anarferol, cymryd negeseuon ffôn ac wyneb yn wyneb a throsglwyddo gwybodaeth ysgrifenedig a llafar gywir i gleifion a staff mewn modd amserol.

Meddu ar sgiliau a gwybodaeth i gefnogi staff RCSW i ddatrys gwrthdaro a chwynion ar lafar, gan ymgymryd â rheoli disgyblaeth a phryder rheng flaen.

### **Clinigol**

Cyfarch cleifion, cynnal gwiriadau adnabod cychwynnol a holiaduron diogelwch MRI a thynnu sylw uwch staff at unrhyw faterion neu anghysondebau; casglu, cyfeirio, cludo a hebrwng cleifion i/o ystafelloedd archwilio a'r adran; cynorthwyo i drosglwyddo a lleoli cleifion gan ddefnyddio technegau a chymhorthion codi a chario yn ôl yr angen.

Gwarchod a darparu gofal i gleifion sy'n cael archwiliadau personol, gan sicrhau bod urddas a chyfrinachedd yn cael eu cynnal bob amser. Gosod a thynnu canwlâu mewnwythiennol, a fflysio â dyfeisiau halwynog wedi'u llenwi ymlaen llaw

Paratoi a rhoi sylweddau cyferbyniad trwy'r geg/meddyginiaethau ar gyfer amrywiaeth o archwiliadau ar ôl iddynt gael eu cyflenwi gan staff cofrestredig ac yn unol â gofynion cyfreithiol a fferyllol a gweithredu fel ail wiriwr pan fo'r rhain i'w rhoi gan ymarferydd cofrestredig. Paratoi offer ar gyfer rhoi meddyginiaethau mewnwythiennol/cyferbyniad gan staff cofrestredig pan mae mecanweithiau cyfreithiol yn caniatáu hynny

Deall ystod o derminoleg feddygol ac anatomegol i osod y claf yn yr ystum cychwynnol ar gyfer ystod o weithdrefnau delweddu/cynorthwyo staff cofrestredig i drosglwyddo a gosod cleifion gan ddefnyddio cymhorthion codi a chario lle bo angen

Paratoi offer ar gyfer lleoliad troli cymhleth a chlirio troliâu ac offer ar ôl gweithdrefnau, cael gwared ar becynnu a ddefnyddiwyd a threfnu i offer a llieiniau gael eu dadheintio, trin/cludo/cael gwared ar sbesimenau a hylifau corfforol a sicrhau bod amgylchedd glân yn cael ei gynnal. Gan weithio ochr yn ochr â staff cofrestredig uwch ac o dan eu cyfarwyddyd, cynorthwyo gyda thechnegau aseptic ac archwiliadau fel allsugnadau gyda nodwydd fân, biopsïau TRUS, pigiadau cyhyrsgerbydol.

Ymgymryd ag amrywiaeth o dasgau clinigol a ddirprwyir gan staff cofrestredig, megis gosod a thynnu tiwbiau rhefrol CT, dewis coiliau MRI, gosod y claf ar gyfer delweddu, cofnodi a monitro arsylwadau a chyflwr cleifion.

Deall cymhlethdodau cyffredin y gweithdrefnau sy'n cael eu cyflawni, gan adnabod arwyddion cleifion sy'n gwaethygu a chleifion sy'n ymateb i sylweddau cyferbyniad, cymryd camau priodol ar unwaith a chyfeirio at uwch staff/defnyddio gweithdrefnau adrannol i gael cymorth brys ac mewn argyfwng

Deall hanfodion ystod o gyflyrau meddygol, gan addasu dyletswyddau unigol i adlewyrchu'r effaith y gallai'r rhain ei chael ar y claf, ymarfer clinigol a gofynion delweddu

Rhoi sylw i anghenion hylendid cleifion a chynorthwyo gyda gofynion gwisgo/dadwisgo a thoiled

Arddangos ymwybyddiaeth o ymbelydredd a diogelwch MRI, gan sicrhau diogelwch ei hun a chefnogi staff i sicrhau diogelwch eraill

### **Anghlinigol**

Darparu cefnogaeth logistaidd i arweinwyr delweddu i gydlynu cynnal a chadw offer, adrodd am ddiffygion, a threfnu ymweliadau gan beirianwyr.

Cynnal amgylchedd gwaith diogel, gan sicrhau bod pob RCSW yn cadw at bolisïau a gweithdrefnau lleol a chanllawiau cenedlaethol.

Gallu adnabod pryderon diogelu a chychwyn gweithdrefnau lle bo'n briodol ac o dan gyfarwyddyd staff cofrestredig

Gweithio ar eich pen eich hun mewn lleoliad penodol sy'n berthnasol i'w rôl a'i brofiad, dan oruchwyliaeth anuniongyrchol (h.y. dros y ffôn).

Ymgymryd â gwiriadau Sicrhau Ansawdd archwiliadau rheoli/sicrhau ansawdd diffiniedig ar offer gan weithio i weithdrefnau a phrotocolau penodol yn unol â'u maes gwaith a hyfforddiant.

Cefnogi a chymryd rhan mewn prosesau archwilio adrannol, naill ai'n unigol neu fel rhan o dîm i gefnogi gwelliannau i wasanaethau.

### **Cyllid a Chyllideb**

Cwblhau ffurflenni cyflog ar gyfer staff RCSW.

Sicrhau defnydd effeithlon o adnoddau trwy ddefnyddio stoc yn nhrefn dyddiad, cynnal lefelau digonol ac archebu stoc yn ôl yr angen.

### **Rheoli, Arwain a/neu Hyfforddi**

Cymryd rhan ym mhob cam o recriwtio, cyfweld, a dewis ymgeiswyr ar gyfer swyddi gwag yn y tîm RCSW a chynefino staff Band, a chynnal cyfweiliadau ymadael yn ôl yr angen.

Arddangos rôl a goruchwyllo staff iau wrth gwblhau dyletswyddau clinigol a gweinyddol, gan roi cyngor, cyfarwyddyd a/neu hyfforddiant i grwpiau ac unigolion.

Creu a chyflwyno adnoddau a hyfforddiant sefydlu RCSW, gan sicrhau bod gofynion hyfforddiant a chymhwysedd gorfodol yn cael eu bodloni a'u cynnal ac ymgymryd ag asesiadau ffurfiol ar gyfer staff sy'n cwblhau dysgu Lefel 2 a Lefel 3.

Cynnal matrices cymhwysedd clinigol ar gyfer staff RCSW.

Cynnal adolygiadau datblygu blynyddol ar gyfer holl staff RCSW, gan lunio cynlluniau datblygu personol gan gynnwys amcanion SMART, a darparu mentoriaeth a hyfforddiant yn ôl yr angen.

Sicrhau bod gwyliau blynyddol y tîm RCSW yn cael eu cofnodi a'u cymeradwyo yn unol â gofynion yr adran.

Cynorthwyo uwch reolwyr i sicrhau bod y trefniadau priodol yn cael eu gwneud i ymchwilio ac ymateb i bob cwyn neu bryder yn ymwneud â Gweithiwr Cymorth Clinigol Radioleg ar y cyd â'r tîm llywodraethu priodol.

Cefnogi'r gwaith o ymchwilio a datrys unrhyw ddigwyddiadau a gofnodwyd yn ymwneud â Gweithiwr Cymorth Clinigol Radioleg.

### **Digidol a Gwybodaeth**

Darparu hyfforddiant ar systemau digidol a gwybodeg i Weithiwr Cymorth Clinigol Radioleg a staff eraill yn ôl yr angen.

Darparu cefnogaeth i dimau PACS mewnol, gan gyflawni ystod o ddyletswyddau yn ôl yr angen.

Defnyddio amrywiaeth o raglenni meddalwedd i hwyluso darpariaeth gwasanaeth radioleg a chyfrannu at gynnal cofnodion cleifion cywir.

Mewnbynnu demograffeg cleifion yn fanwl gywir, cofnodi manylion archwiliadau a gweithdrefnau cywir a data sensitif.

Trosglwyddo delweddau ac adroddiadau radiolegol i sefydliadau allanol.

## **MANYLEB Y PERSON**

### **Cymwysterau a Gwybodaeth**

#### **Hanfodol**

Cymhwyster Lefel 3 mewn Cymorth Delweddu Clinigol / Cymorth Gofal Iechyd Clinigol ynghyd â hyfforddiant a phrofiad ychwanegol hyd at Lefel 4

Cymhwyster Aseswr Agored neu brofiad cyfatebol

#### **Dymunol**

Gradd Sylfaen, NVQ Lefel 4 neu gyfwerth

### **Profiad**

#### **Hanfodol**

Profiad a gwybodaeth amlwg o rôl RCSW

#### **Dymunol**

Profiad o reoli a goruchwylio grwpiau o staff  
Profiad o gefnogi a/neu gyflwyno hyfforddiant staff

### **Sgiliau a Phrïodoledau**

Sgiliau trefnu a rheoli amser rhagorol. Yn gallu rheoli blaenoriaethau cystadleuol yn effeithiol yn unigol ac fel rhan o dîm  
Sgiliau arwain ac ysgogi  
Yn meddu ar sgiliau rhyngpersonol rhagorol  
Sgiliau cyfrifiadurol safonol gan gynnwys MS Office  
Mae Sgiliau Cymraeg yn ddymunol ar lefelau 1 o ran deall, siarad, darllen ac ysgrifennu (dilêwch fel y bo'n briodol)

### **Dymunol**

Sgiliau dadansoddi a datrys problemau

### **Arall**

Cliriad Boddhaol Safonol/Manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gan gynnwys gwiriad Rhestr Waharddedig Oedolion/Plant  
Yn gallu symud a thrin offer a chynorthwyo gyda chodi a chario cleifion.  
Hyblyg i fodloni anghenion y gwasanaeth